**Rhif: WG29100**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau a’r Canllawiau Statudol ynghylch cynlluniau ardal yn dilyn yr asesiad poblogaeth

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffennaf 2016
Camau i’w cymryd: Ymatebion erbyn 3 Hydref 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar ganllawiau statudol a rheoliadau ynghylch y cynlluniau ardal arfaethedig sy'n ofynnol o ganlyniad i adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

**Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy lenwi, erbyn canol nos ar y dyddiad cau, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ein gwefan (http://gov.wales/consultations/?lang=cy) a'i dychwelyd atom drwy'r e-bost i: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk

Fel arall, gellir llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd yng nghefn y ddogfen hon, a'i hanfon atom drwy'r post i'r:

Y Gangen Cynllunio, Partneriaeth a Chydweithredu
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/contents
http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?skip=1&lang=cy

**Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth:

Y Gangen Cynllunio, Partneriaeth a Chydweithredu
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: sswbimplementation@wales.gsi.gov.uk
ffôn: 02920 826880

**Diogelu data**

Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth y byddwch yn ei rhannu â ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Beth yw'r prif faterion?**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar y rheoliadau drafft a'r canllawiau statudol ynghylch y cynlluniau ardal sy'n ofynnol o ganlyniad i adran 14A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"). Mae'n ofynnol cyhoeddi'r cynlluniau ardal hyn ar ôl cynnal asesiad poblogaeth o dan adran 14 o Ddeddf 2014.

Bydd Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2016 ("y rheoliadau cynllunio ardal") a Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2016 ("rheoliadau partneriaeth 2016") yn cael eu cyhoeddi o dan Ran 2, adran 14A(7)(a)-(d) a Rhan 9, adran 166 o Ddeddf 2014. Bydd y canllawiau statudol yn cael eu cyhoeddi o dan Ran 9, adran 169 o Ddeddf 2014.

**Y sefyllfa ar hyn o bryd**

Cafodd Deddf 2014 Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014 a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016.

<u>Asesiadau poblogaeth</u>

Mae Rhan 2, adran 14 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth pobl, anghenion cymorth gofalwyr a gwasanaethau ataliol. Mae rheoliadau ategol a Chod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol mewn ardal Bwrdd Iechyd Lleol lunio cytundeb partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd hwnnw. Bydd hyn yn darparu ar gyfer adroddiad asesiad poblogaeth cyfunol.

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</u>

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LlCD") yn mewnosod adran 14A yn Neddf 2014. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Mae Adran 14A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol lunio a chyhoeddi cynllun ardal sy'n nodi ystod a lefel y gwasanaethau y maent yn cynnig eu darparu, neu drefnu i gael eu darparu, mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth ar y cyd.

<u>Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</u>

Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sicrhau bod y strwythurau priodol (trefniadau partneriaeth a byrddau partneriaeth) ac adnoddau (gan gynnwys cronfeydd cyfun) ar waith i allu darparu gwasanaethau integredig. Mae rheoliadau ategol yn darparu ar gyfer saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhatrwm byrddau iechyd lleol. Diben y byrddau partneriaeth hyn yw gwella canlyniadau lles pobl a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hyn, gan gynnwys sicrhau bod cyrff partneriaeth yn cydweithio'n effeithiol i:

- Ymateb i'r adroddiad asesiad poblogaeth; a
- Rhoi ar waith y cynlluniau ardal neu'r cynlluniau ardal ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan adran 14A o Ddeddf 2014.

**Tystiolaeth ar gyfer newid**

Diddymodd y Ddeddf LlCD nifer o ddyletswyddau cynllunio ar wahân, a chyflwynodd ddull cynllunio rhesymegol, integredig yn eu lle. Fodd bynnag, erys angen i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, y ddau wasanaeth cyhoeddus allweddol, gynllunio'n benodol o ran diwallu anghenion gofal a chymorth pobl, gan gynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Dyma ddiben y cynllun ardal a ddisgrifir yn y canllawiau statudol drafft a'r rheoliadau cynllunio ardal drafft.

**Y cynigion**

<u>Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2016 ("rheoliadau partneriaeth 2016")</u>

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu swyddogaethau cynllunio ardal newydd adran 14A at y rhestr o swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol y mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cyflawni yn rhan o'r trefniadau partneriaeth. Mae swyddogaethau cynllunio newydd adran 14A eisoes wedi eu cynnwys yn rhan o swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae'n ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu cyflawni.

Mae'r rheoliadau hyn yn ychwanegol at y rheoliadau cynharach, Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("Rheoliadau Partneriaeth 2015), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015.

<u>Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2016 ("y rheoliadau cynllunio ardal")</u>

Mae'r rheoliadau hyn yn nodi cyfres o ofynion ar gyfer y cynlluniau ardal, sy'n ymwneud â'r canlynol:

(a) cyhoeddiad cynllun;
(b) adolygu;
(c) ymgynghoriad; a
(d) monitro a gwerthuso.

Canllawiau Statudol i gefnogi rheoliadau partneriaeth 2016 a'r rheoliadau cynllunio ardal

Nod y canllawiau hyn yw egluro:

- gofynion rheoliadau partneriaeth 2016 a rheoliadau partneriaeth 2015 i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol gydweithio i baratoi a chyhoeddi cynllun ardal;
- manylion ychwanegol am y cynlluniau ardal neu'r cynlluniau ardal ar y cyd, gan gynnwys ymgysylltiad â rhanddeiliaid ac amserlenni;
- amserlenni ar gyfer llunio'r cynlluniau ardal neu'r cynlluniau ardal ar y cyd cyntaf;
- sut mae'r cynlluniau ardal neu'r cynlluniau ardal ar y cyd yn cysylltu â fframweithiau cynllunio eraill;
- cynnwys a strwythur cynllun.